



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL SECTOR AMAETHYDDOL (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
gan ymgorffori'r Aseiad Effaith
Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

Gorffennaf 2013

Memorandwm Esboniadol i Fil Sector Amaethyddol (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Dyfodol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, bydd darpariaethau Bil Sector Amaethyddol (Cymru) a gyflwynir gennyf ar 8 Gorffennaf 2013 yn gyson â chymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Alun Davies AC

Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

8 Gorffennaf 2013

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Amcanion polisi'r Bil | 3 |
| Yr opsiynau ar gyfer cyflawni amcanion y polisi | 9 |
| Ymgynghori | 11 |
| Darpariaethau'r Bil..... | 12 |
| Costau..... | 12 |
| Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth..... | 14 |
| ATODIAD A - Nodiadau Esboniadol | 16 |
| ATODIAD B – Aseiad Effaith Rheoleiddiol | 23 |
| ATODIAD C - Aseiad o Effeithiau Penodol | 34 |

| | |
|---|----|
| Amcanion polisi'r Bil | 3 |
| Yr opsiynau ar gyfer cyflawni amcanion y polisi | 9 |
| Ymgynghori | 11 |
| Darpariaethau'r Bil..... | 12 |
| Costau..... | 12 |
| Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth..... | 14 |
| ATODIAD B – Aseiad Effaith Rheoleiddiol | 23 |

Amcanion polisi'r Bil

Crynodeb

1. Mae'r Bil yn cadw'r mesurau a geir ar hyn o bryd yng Ngorchymyn 2012 ("Gorchymyn 2012") a wnaed gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ("AWB") i reoleiddio'n statudol delerau ac amodau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru. Mae angen eu cadw am fod Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 yn dileu'r AWB (ar 25/6/13) ac yn diddymu Gorchymyn 2012 ar 1/10/13. Mae'r Bil yn darparu, serch bod Gorchymyn 2012 yn cael ei diddymu ym mis Hydref 2013, bod y darpariaethau sydd yn y Gorchymyn sy'n ymwneud ag amodau a thelerau gweithwyr amaethyddol yng Nghymru yn parhau ar ôl mis Hydref. Mae'r Bil yn darparu hefyd ar gyfer trefn orfodi a fydd yn sylfaen ar gyfer parhau â threfn reoledig ar wahân i weithwyr amaethyddol yng Nghymru. Bydd y drefn orfodi honno (ac eithrio rhai newidiadau) yn gyson â'r drefn orfodi a oedd tan hynny'n gweithredu mewn cysylltiad â'r Gorchymynion a wnaed gan yr AWB. Mae'r elfen orfodi o dan y Bil yn ymwneud yn unig â hawliau a dyletswyddau fydd yn codi ar ôl i'r Bil ddod i rym. Daw'r dyletswyddau a'r hawliau eraill o dan Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948 fel y'u cedwir gan Orchymyn Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio (Cychwyn rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2013. Mae'r Bil yn rhoi'r p e r i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth i Gymru i gyflawni swyddogaethau y gallai Gweinidogion Cymru ofyn iddo eu cyflawni sy'n ymwneud â'r sector amaethyddol yng Nghymru, gan gynnwys cyngori ar amodau a thelerau, er enghraifft hyfforddiant, lwfansau c n, iawn am lety a chyflogau.

Cefndir

2. Mae'r sector amaethyddol yn wahanol i sectorau eraill oherwydd ei strwythur ac oherwydd y gwaith corfforol sydd ynghlwm wrtho. Mae'r sector wedi'i rannu'n unedau cyflogi bychain gan fwyaf, a chyda gweithwyr tymhorol ac achlysurol ychwanegol. Mae nifer arwyddocaol o weithwyr amaethyddol, rhyw draean o holl weithwyr y sector amaethyddol yng Nghymru a Lloegr, yn gyflogedigion heb swyddi parhaol. At hynny, gofynnir i weithwyr amaethyddol weithio oriau hir ac i wneud gorchwylion peryglus a chorfforol iawn.
3. Y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol (AWB) oedd y bwrdd cyflogau sector preifat olaf ar ôl dileu'r Cyngorau Cyflogau ym 1993. Prif gyfrifoldebau'r AWB o dan Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948, ymhlith eraill, oedd pennu'r cyfraddau cyflog isaf, yr hawl i wyliau a'r telerau ac amodau gwaith gofynnol eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr. Roedd y Bwrdd yn effeithio ar ryw 140,000 o weithwyr amaethyddol cyffredinol a chrefftus yng Nghymru a Lloegr.
4. Roedd gan yr AWB 5 o aelodau annibynnol, 8 o gynrychiolwyr cyflogwyr (NFU) ac 8 o gynrychiolwyr gweithwyr (UNITE). Roedd yn ymgynnull yn rheolaidd i negodi amodau gwaith i'r sector amaethyddol. Yna, byddai'r amodau gwaith newydd y cytunir arnynt yn cael eu hymgorffori yn y Gorchymyn a fyddai'n dod i

rym ar 1 Hydref bob blwyddyn. Heb y Bil, byddai darpariaethau Gorchymyn 2012 yn para yng Nghymru a Lloegr tan 1 Hydref 2013.

Trefniadau cyfredol

5. Mae'r rheoliadau statudol penodol ar gyfer cyflogi gweithwyr amaethyddol yn cydnabod mor wahanol yw'r sector i sectorau eraill ac mae'n gyson â'r rhesymeg sy'n sail i ymyriadau statudol ac addasiadau'r farchnad rydd mewn cysylltiad â chynnyrch amaethyddol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae ymyriadau o'r fath yn helpu'r sector amaethyddol i weithio'n effeithiol trwy gefnogi categorïau gwahanol o weithwyr, gan gynnwys gweithwyr hyblyg (achlysurol), gweithwyr ifanc, prentisiaid a phobl o dan hyfforddiant, fel elfennau allweddol a ffactorau angenrheidiol cynhyrchu. Mae'r drefn reoledig yn cefnogi pobl i gamu ymlaen yn awtomatig yn eu gyrfa a'u datblygiad personol a phroffesiynol trwy hyfforddiant. Mae'n darparu hefyd lefelau priodol o'r hawl i wyliau, tâl salwch, tâl goramser, premiwm ar alw a galw allan gyda'r nos sy'n berthnasol i'r sector hwn. Hefyd, wrth i Lywodraeth y DU ddileu Gorchymyn 2012, bydd gweithwyr amaethyddol yn colli eu grantiau geni a mabwysiadu ynghyd â'r lwfans tai, lwfans c n a'r tâl am amser teithio a hyfforddiant. Mae'r rhain hefyd yn benodol i'r sector amaethyddol a'r gofyn sydd ar y rheini sy'n gweithio ynddo. Yn ogystal â chydabod mor wahanol yw'r sector, mae'r amodau uchod hefyd yn helpu i ddenu gweithwyr newydd gan sicrhau olyniaeth i'r gweithlu a bod y diwydiant amaethyddol yn parhau i weithio'n effeithiol. Mae'r Gorchymynion cyfnodol yn cynnig system gyson a rheoledig ag iddi strwythur pendant ar gyfer pennu telerau ac amodau penodol yn unol â'r sector a'r cyd-destun. Roedd yn diogelu un o'r prif ffactorau cynhyrchu. Heb yr amddiffyniad hwn, mae perygl i'r sector beidio â datblygu a gwireddu ei botensial.
6. Mae'r drefn statudol yng Nghymru a Lloegr wedi darparu 6 gradd tâl sy'n gwahaniaethu ar sail sgiliau, cymwysterau, profiad a chyfrifoldeb. Mae pob un o'r graddau hyn yn uwch na'r isafswm cyflog cenedlaethol ("ICC"). Yn ogystal, mae Gorchymyn 2012 yn gwarantu hyfforddiant ar gyfer rhai gweithwyr (y rheini sy'n ennill y gyfradd tâl wythnosol/awr isaf) i sicrhau eu bod yn cael camu ymlaen yn eu gyrfa yn y sector ac yn disgrifio'r gofyn ar gyflogwyr i dalu am gost hyfforddiant penodol a chostau teithio ychwanegol.
7. Mae Llywodraeth Cymru'n credu mai un o agweddau pwysicaf gwaith yr AWB oedd diogelu cyfleoedd am ddilyniant gyrfa ac i ddatblygu sgiliau yn y dyfodol. Roedd y system 6 gradd talu a'r matrices gyrfa, ynghyd â darpariaethau oedd yn caniatáu i weithwyr gradd 1 fynd ymlaen i radd 2, yn annog datblygiad proffesiynol a gwella sgiliau. Roedd hynny'n cael effaith bositif drwy'r sector cyfan. Mae sicrhau strwythur a chydlyniant wrth ymdrin â sgiliau a dilyniant yn elfennau allweddol ar gyfer gwireddu dyheadau Llywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu diwydiant amaethyddol effeithiol ac effeithlon yng Nghymru.
8. Daeth yr AWB â budd i'r diwydiant trwy ddarparu strwythur i wobrwyo sgiliau a phrofiad a chynnal sector cytbwys yng Nghymru sy'n gweithio'n dda. Roedd yn gydnabyddiaeth bod y sector amaethyddol yn wahanol i sectorau eraill, yn cydnabod hefyd natur y gwaith tymhorol trwy gynnig darpariaethau arbennig ar

gyfer gweithwyr hyblyg ac yn diogelu hawl gweithwyr crefftus i gamu ymlaen yn eu gyrfa trwy ddarparu'n benodol ar gyfer prentisiaid a gweithwyr dan hyfforddiant. Un o brif fanteision trefn statudol wahanol ac unigryw yw helpu ffermwyr a gweithwyr fferm i bennu eu telerau ac amodau gwaith ac osgoi anghydfodau a'r angen am drafodaethau hir ag unigolion. Mae'r Bil dan sylw'n cynnig cadw'r holl ddarpariaethau uchod gan ganiatáu'r sector i barhau heb amharu ar y mesurau amddiffyn statudol presennol na chwaith ar y gadwyn gyflenwi o weithwyr amaethyddol crefftus.

Newidiadau i'r trefniadau presennol

9. Fel rhan o'r adolygiad ehangach o strwythur cyrff cyhoeddus, mae AWB Cymru a Lloegr wedi cael ei ddiddymu, diolch i Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (ERR). Cafodd ei ddiddymu ar 25 Mehefin 2013 ynghyd â'u cyrff cyhoeddus statudol cysylltiedig, sef y Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol (AWC) a'r Pwyllgorau Cynghori Anhedd-dai Amaethyddol (ADHAC) yn Lloegr. Mae swyddogaethau'r AWC a'r ADHAC wedi'u datganoli yng Nghymru a byddant yn parhau yng Nghymru. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar ddyfodol yr AWB yn gofyn hefyd am farn y cyhoedd am ddyfodol y cyrff statudol cysylltiedig, yr AWC a'r ADHAC yng Nghymru. Bydd dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dylanwadu ar y penderfyniadau polisi terfynol ynghylch dyfodol y cyrff hyn yng Nghymru.
10. Bydd cael gwared ar y strwythur gyrfaoedd presennol yn cael gwared ar y fecanwaith ar gyfer gwobrwyo sgiliau a phrofiad yn y sector amaethyddol a'r sbardun a'r cyfle ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus. Er y caiff gweithwyr unigol negodi'u gofynion hyfforddi drostynt eu hunain, mae'n anodd gweld sut y gallai trafodaethau ynysig o'r fath â chyflogwyr fod mor effeithiol â'r strwythur presennol ar gyfer datblygu sgiliau. Mae'r matrices gyrfa presennol yn sicrhau bod profiad a sgiliau'n cael eu cadw a'u gwella yn y sector felly bydd colli'r ddarpariaeth statudol hon yn debygol o gael effaith ehangach ar y diwydiant. Gallai, yn arbennig, arwain at brinder sgiliau ac at gynyddu cyfran y gweithlu sy'n ddibrofiad (ac felly'n llai effeithiol). Gellid ystyried bod prinder sgiliau a phrofiad allweddol yn rhwystr sylfaenol rhag gwireddu dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol y sector.
11. Ar hyn o bryd, ceir cefnogaeth gyhoeddus eang o blaid cadw'r AWB yng Nghymru. Mae Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) wedi mynegi'u pryderon ynghylch y cynlluniau i ddileu'r AWB. Ym marn yr FUW, yr AWB yw'r corff mwyaf effeithiol ar gyfer pennu cyflogau ac amodau gwaith sy'n adlewyrchu gofynion unigryw'r diwydiant amaeth yng Nghymru. "*Mae Undeb Amaethwyr Cymru'n credu bod rôl y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol o ran pennu'r cyfraddau tâl ac amodau isaf yn caniatáu i'r telerau a'r amodau adlewyrchu gofynion unigryw'r diwydiant am lafur.*"¹ Hefyd, mynegodd UNITE a'r Clybiau Ffermwyr Ifanc hwythau eu cefnogaeth o blaid cadw swyddogaethau'r AWB yng Nghymru. Mynegodd Jonathan Williams, Cadeirydd Materion Gwledig y CFFl ei bryderon ynghylch effaith diddymu'r AWB ar ddatblygiad y sector: "*Heb y Bwrdd, byddai*

¹ Dyfyniad gan yr FUW fel ymateb i asesiad Defra ar ddileu'r AWB.

*tâl ac amodau'n cael eu taro a byddai cyflogau is yn cadw pobl ifanc - y dyfodol - rhag ymuno â'r diwydiant.*¹²

Diben a bwriad y Bil

12. Pwrpas y Bil yw gosod sylfaen bwysig ar gyfer gwireddu dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu sector amaethyddol yng Nghymru. Bydd yn helpu'r sector i fod yn fwy cynhyrchiol ac effeithlon trwy weithwyr brwd sydd wedi'u hyfforddi'n dda gyda llwybr datblygu gyrfa ar eu cyfer. Byddai'r drefn y byddai'r Bil yn ei chadw yn darparu rhywbeth tebyg i'r hyn sy'n cael ei ddarparu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, lle bydd byrddau ar wahân yn parhau i fod. Mae hyn yn angenrheidiol i drechu'r sialensiau fydd yn wynebu'r sector amaethyddol yn y dyfodol, fel y newid yn yr hinsawdd, prinder sgiliau a diogelu cyflenwadau bwyd.
13. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n:
 - a. Cadw'r mesurau amddiffyn statudol sydd yng Ngorchymyn 2012 a fyddai'n peidio â bod heb y Bil hwn pan gaiff Gorchymyn 2012 ei ddiddymu ar 1 Hydref 2013.
 - b. Rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud Gorchymynion yn y dyfodol i bennu amodau a thelerau amaethyddol.
 - c. Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru i gynnal swyddogaethau tebyg ond fwy caboledig i'r rheini o eiddo'r AWB, gan gynnwys cyngori Gweinidogion Cymru ar Orchymynion yn y dyfodol.
 - d. Galluogi'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru i gynnal swyddogaethau sy'n ymwneud â gweithrediad y sector amaethyddol, gan gynnwys hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch pennu amodau a thelerau isaf.
 - e. Helpu i sefydlu sector cryf a chynaliadwy sydd â gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda.
 - f. Hybu ymdrechion i wella sgiliau yn y sector amaethyddol, hynny gan ategu amcanion bras agenda "Hwyluso'r Drefn" Llywodraeth Cymru o safbwynt sicrhau cyflenwad o weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda a busnesau sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol yng Nghymru i gyfrannu at economi fwy ffyniannus ac arloesol.
14. Nid amcan y polisi yw ail-greu AWB Cymru a Lloegr ond creu mecanwaith fodern ac effeithiol i wireddu dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector. Er mwyn gwireddu amcan y polisi, byddai corff Cymru yn unig (fel y Panel dan sylw) yn gallu gweithio mewn ffordd symlach ac am lai o gost, gan ymateb pan wêl Llywodraeth Cymru bod angen ei hymateb i amodau gweithwyr a hefyd i

² <http://www.welshcountry.co.uk/index.php/news-from-around-wales/42-other-news/12280-wales-yfc-mick-antoniw-am-and-the-agricultural-wages-board>

faterion polisi ehangach a sut y gellid integreiddio gorchmynion a chynlluniau hyfforddi mewn meysydd eraill ar gyfer datblygu polisi amaethyddol. Gallai'r Panel edrych ar sut y mae byrddau cyflogau'r Gweinyddiaethau eraill yn gweithio a'u defnyddio fel esiamplau.

15. Mae'r Bil yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch aelodaeth a chylch gwaith y Panel er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn canolbwyntio ar y problemau sy'n wynebu'r diwydiant yng Nghymru heddiw ac yfory. Mae'r ymgynghoriad wedi rhoi gwybodaeth werthfawr am bryderon ac amcanion unigolion a chyrrff yn y sector amaethyddol.
16. Mae nifer o broblemau'n wynebu amaethyddiaeth heddiw, gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd a diogelwch y cyflenwad bwyd. Yr unig ffordd o'u datrys yw trwy bolisiâu ystyrlon a chyson sy'n deall holl ffactorau cynhyrchu, gan gynnwys llafur a'r angen am weithlu amaethyddol galluog a chadarn. Yn y dyfodol, bydd gofyn i'r diwydiant gynhyrchu mwy a thyfu ac i wneud hynny bydd angen gweithlu medrus. Gallai'r Panel gefnogi'r sector amaethyddol trwy fynd i'r afael â'r heriau hyn trwy ystyried sut y gellid defnyddio'r sbardunau i bolisiâu gweithwyr ac amodau cyflogi'r gweithwyr hynny esgor ar fuddiannau ehangach i'r diwydiant.
17. Gall y Panel helpu hefyd i unioni'r prinder sgiliau y gallai'r diwydiant ei wynebu yn y dyfodol. Mae data eisoes yn dangos nad yw lefel gweithwyr rheolaidd ac achlysurol (y ddau fath o weithiwr a ddaw o dan gylch gwaith yr AWB) yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad, mae gweithwyr amaethyddol crefftus yn prinhaus o ryw ychydig. Os bydd y duedd am i lawr hon yn parhau, bydd yn arwain at brinhau'r sgiliau fydd ar gael yn y sector amaethyddol yng Nghymru. Bwriedir i'r Panel hybu cyfleoedd i bobl sydd am ddatblygu eu gyrfa a'u sgiliau yn y sector amaethyddol er mwyn taclo ac osgoi prinder sgiliau yn y diwydiant.

Cymhwysedd deddfwriaethol

18. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth ym Mil Sector Amaethyddol (Cymru) o dan Ran 4 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae darpariaethau perthnasol Deddf 2006 wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.
19. Mae Paragraff 1 o Ran 1 Atodlen 7 yn rhestru'r pynciau canlynol y caiff y Cynulliad ddeddfu arnynt o dan y pennawd "*Amaethyddiaeth, coedwigaeth, anifeiliaid a datblygu gwledig*" ac fe'i hatgynhyrchir isod:

1 Agriculture, forestry, animals, plants and rural development

Agriculture. Horticulture. Forestry. Fisheries and fishing. Animal health and welfare. Plant health. Plant varieties and seeds. Rural development.

In this part of this Schedule "animals" means –

- (a) all mammals apart from humans, and
- (b) all animals other than mammals;

And related expressions are to be construed accordingly.

Exceptions –

Hunting with dogs.

Regulation of scientific or other experimental procedures on animals.

Import and export control, and regulation of movement, of animals, plants and other things, apart from (but subject to provision made by or by virtue of any Act of Parliament relating to the control of imports or exports)-

(a) the movement into and out of, and within, Wales of animals, animal products, plants, plant products and other things related to them for the purposes of protecting human, animal or plant health, animal welfare or the environment or observing or implementing obligations under the Common Agricultural Policy, and

(b) the movement into and out of, and within, Wales of animal feedstuff fertilisers and pesticides (or things treated by virtue of any enactment as pesticides) for the purposes of protecting human, animal or plant health or the environment.

Authorisations of veterinary medicines and medicinal products.

20. Mae hyn yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud darpariaethau Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Nid oes unrhyw un neu rai o ddarpariaethau'r Bil yn dod o dan unrhyw un neu rai o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 nac yn gymwys fel arall o ran Cymru ac yn rhoi, gosod, addasu neu'n dileu (neu'n rhoi p er i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru; nid ydynt chwaith yn torri unrhyw gyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7, gan ystyried unrhyw eithriad i'r cyfyngiadau hynny sydd wedi'u nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

Yr opsiynau ar gyfer cyflawni amcanion y polisi

21. Mae tri opsiwn gwahanol wedi'u hystyried ar gyfer cyflawni prif amcanion y polisi. Disgrifir yr opsiynau hyn isod a nodir eu manteision a'u hanfanteision.

Opsiwn 1 – Gwneud dim

22. Cafodd AWB Cymru a Lloegr ei ddileu ar 25 Mehefin 2013 a diddymir Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 ar 1 Hydref 2013. Mae hynny'n golygu y daw gweithwyr amaethyddol Cymru o dan fframwaith yr isafswm cyflog cenedlaethol (ICC) o fis Hydref 2013. Byddai'r amddiffyniad statudol a roddir o dan drefn yr ICC a deddfwriaeth cyflogaeth berthnasol ond yn gwarantu rhan o'r amddiffyniad a gynigir ar hyn o bryd i'r swector amaethyddol o dan y drefn bresennol. Mae adroddiad y Comisiwn Cyflogau Isel ar ddileu'r AWB (2011) wedi ystyried yn fanwl y goblygiadau tebygol ar gyfer gweithwyr amaethyddol a'r diwydiant ehangach. Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

*"Ar ôl ei diddymu, caiff llawer o ddarpariaethau'r Gorchymyn eu darparu trwy ddeddfwriaeth cyflogaeth statudol arall ond dim ond yn rhannol, os hynny. Nid oes darpariaeth yn y ddeddfwriaeth gyflogaeth sy'n ymdrin â chyfraddau tâl penodol sy'n gysylltiedig â sgiliau, cyfraddau penodol ar gyfer goramser, cyfradd tâl isaf i weithwyr o oed addysg orfodol, hawl i hyfforddiant â thâl, lwfansau ar alwad a chyda'r nos, hawl i dâl profedigaeth, grant geni neu fabwysiadu na lwfans c n."*³

23. Ni theimlid effaith y newidiadau hyn ar unwaith gan na fyddai'r drefn newydd yn effeithio ond ar gontractau newydd. Byddai'r ICC yn cynnig rhyw lefel o amddiffyniad a'r un fyddai'r gofynion statudol yng Nghymru a Lloegr. Bydd yn lleihau'r baich rheoleiddio ar fusnesau a chyflogwyr.
24. Fodd bynnag, byddai'r amddiffyniad statudol i weithwyr yn y sector amaethyddol yng Nghymru lawer lawer yn llai. Mae'r ICA yn darparu ar gyfer chwe gradd o weithwyr, gyda'u cyfraddau tâl yn dibynnu ar brofiad a chymwysterau. Byddai hynny'n cael ei golli unwaith y daw gweithwyr amaethyddol o dan drefn yr ICC. Hefyd, bydd yr hawl i wyliau a thâl salwch yn llai o ganlyniad i'r newidiadau a daw tâl goramser, y premiwm ar alwad a galw allan gyda'r nos, ynghyd â lwfansau arbennig fel y lwfans tai, y lwfans c n a'r hawl i dâl am amser teithio a hyfforddiant, i ben. Ni chawn wybod yn llawn beth fydd effaith diddymu'r Isafswm Cyflog Amaethyddol (ICA) tan y caiff trefn yr ICC ei rhoi ar waith yn y sector.

Opsiwn 2: Deddfu i gynnal y lefel bresennol o amddiffyniad statudol i weithwyr amaethyddol

³ *The Implications for the National Minimum Wage of the Abolition of the Agricultural Wages Board in England and Wales* (Income Data Services, 2011)

25. Cynnal y lefel bresennol o amddiffyniad a bennir gan y drefn bresennol i weithwyr amaethyddol yng Nghymru trwy gadw i bob pwrpas y darpariaethau a geir yng Ngorchymyn Cyflogau Amaethyddol 2013 ar ôl Hydref 2013 ond gan roi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru allu ei newid wedi hynny.
26. Mae'r ICA yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr a chan ffermwyr i osgoi anghydfodau ac i bennu cyfraddau cyflog a thelerau ac amodau isaf eraill sy'n berthnasol i swyddi a chontractau penodol. Mae'n cydnabod bod y sector amaethyddol yn wahanol i sectorau eraill ac yn darparu lwfansau a darpariaethau arbennig sydd ond yn gymwys i amaethyddiaeth, gan gynnwys lwfans c n, iawn am lety ar y fferm, tâl tywydd drwg a thalu wrth y pen. Mae'n cydnabod natur y gwaith tymhorol sy'n gyffredin yn y sector trwy gynnig darpariaethau arbennig ar gyfer gweithwyr hyblyg. Mae'n diogelu gallu gweithwyr crefftus i gamu ymlaen yn eu gyrfa trwy ddarparu ar gyfer prentisiaid a gweithwyr dan hyfforddiant. Mae Gorchymyn 2012 yn cydnabod 6 chategori gwahanol o weithwyr, sy'n dibynnu ar eu cymwysterau galwedigaethol a'u tystysgrifau cymhwysedd perthnasol, hyd eu profiad yn amaethyddiaeth, gan gynnwys amser a dreulir mewn hyfforddiant, cyfnod di-dor mewn gwaith a lefel y cyfrifoldeb ar y fferm. Mae'r holl raddau'n uwch na'r ICC presennol. Bydd Opsiwn 2 yn cadw'r drefn i gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru, hynny hyd yn oed ar ôl dileu yr AWB a diddymu Gorchymyn 2012.
27. Trwy gyflwyno Bil Sector Amaethyddol (Cymru), byddai'r gofynion statudol yng Nghymru'n wahanol i'r rhai yn Lloegr a gallai hynny achosi rhai problemau ar ffermydd sydd bob ochr i'r ffin a gallai effeithio'n negyddol ar fusnesau fferm yng Nghymru sy'n cystadlu â busnesau yn Lloegr.

Opsiwn 3: Creu system gynghori anstatudol

28. Gallai cyflogwyr a gweithwyr amaethyddol yng Nghymru ddilyn arferion gorau anstatudol o safbwynt cyflogau ac amodau gwaith yn y sector amaethyddol. Gallai trefn o'r fath helpu cyflogwyr a chyflogedigion osgoi anghydfodau wrth drefnu contractau gwaith. Ni fyddai gan y drefn hon rym y gyfraith y tu ôl iddi a byddai'n dibynnu ar ffermwyr a chyflogwyr yn y sector i'w dilyn o'u gwirfodd. Yr ICC, fel ag yn Opsiwn 1 a 2, fydd y rhwyd diogelwch statudol.
29. Er mwyn datblygu canllaw arferion da, gallai olygu cyfraniad gan gynrychiolwyr y diwydiant a'r llywodraeth a rhoi cyngor rheolaidd a chyfoes i ffermwyr ar faterion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth.
30. Fodd bynnag, ni fyddai modd defnyddio'r gyfraith i orfodi'r cyngor a roddir a byddai'n rhaid dibynnu ar gydweithrediad gwirfoddol ffermwyr a chyflogwyr yn y sector amaethyddol.

Ymgynghori

31. Cyn cyhoeddi diwedd yr AWB, cynhaliodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ymgynghoriad byr (4 wythnos) yn hydref 2012. Daeth 29 o ymatebion o Gymru: roedd 26 yn erbyn y cynnig i ddileu'r Bwrdd. Dim ond 3 oedd o blaid.
32. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC) mai un o brif fanteision yr AWB yng Nghymru oedd ei fod yn pennu cyflogau ac yn osgoi anghydfodau rhwng ffermwyr a gweithwyr. Y manteision eraill y tynnwyd sylw atynt oedd, ymhlith eraill, ei fod yn diogelu amodau gwaith cyffredinol, y lwfansau amaethyddol (tai, ar alwad, c n ac ati), ei fod yn annog pobl ifanc i ymuno â'r diwydiant, yn sicrhau bod gweithwyr yn cael camu ymlaen yn eu gyrfa ac yn creu gweithlu cryf ar gyfer y dyfodol.
33. Lansiodd Llywodraeth Cymru hithau ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol yr AWB yng Nghymru ar 1 Mai 2013. Cysylltwyd yn uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol fel Undebau'r Ffermwyr, Unite, Lantra a cholegau amaeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn agored i bawb yng Nghymru ac mae'r ddogfen i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
34. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad i ofyn am farn pobl Cymru am y 3 opsiwn canlynol:
 - a. Gwneud dim – os dewisir yr opsiwn hwn caiff yr AWB a'r drefn ar gyfer gwneud gorchmynion sy'n pennu'r telerau ac amodau isaf ar gyfer gweithwyr amaethyddol yng Nghymru eu dileu ym mis Hydref 2013. Daw gweithwyr amaethyddol Cymru o dan drefn yr isafswm cyflog cenedlaethol (ICC) a/neu unrhyw drefniadau gwirfoddol y gallai cyflogwyr ddewis eu dilyn.
 - b. Deddfu i gadw swyddogaethau'r AWB yng Nghymru – byddai'r opsiwn yn golygu sefydlu panel amaethyddol i Gymru'n unig i helpu i benderfynu ar faterion ynghylch gweithwyr amaethyddol a'r sector amaethyddol ehangach yng Nghymru.
 - c. Creu bwrdd cynghori anstatudol – byddai'r opsiwn hwn yn golygu sefydlu bwrdd cynghori heb sail statudol iddo i roi cyngor tebyg i'r hyn y byddai'r AWB wedi'i roi. Byddai'r bwrdd cynghori yn cynnig cynghorion yn unig ac ni fyddai ganddynt rym y gyfraith yn gefn iddynt.
35. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 26 Mehefin 2013. Daeth cyfanswm o 23 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law oddi wrth amrywiaeth o randdeiliaid gwahanol. Unigolion oedd yn gyfrifol am ychydig mwy na thraean o'r ymatebion a daeth ychydig dros chwarter o'r ymatebion oddi wrth Gynrychiolwyr Undebau. Roedd yn well gan 86% o'r ymatebwyr yr opsiwn i ddeddfu a chadw'r drefn statudol bresennol yng Nghymru. Cewch grynoded o'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn dogfen ar wahân. Dilynwch y ddolen isod:

36. Fodd bynnag, mae'r ymatebion a gafwyd gan unigolion, cynrychiolwyr y diwydiant, gweithwyr a chyrff eraill â diddordeb, wedi rhoi gwybodaeth bwysig i ni am anghenion a gofidiau amaethyddiaeth yng Nghymru ac wedi awgrymu bod cefnogaeth i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth yn y maes. Mae'r hyblygrwydd sydd yn y Bil yn golygu y cawn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad pan fyddwn yn datblygu cyfeiriad y polisi yn y dyfodol. Bwriad y polisi o hyd yw mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu amaethyddiaeth yng Nghymru a newid y fframwaith deddfwriaethol yn unol ag anghenion y diwydiant. Bydd y Bil yn rhoi i ni sylfaen ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth i weithio ac i ddatblygu system gydlyn ar gyfer gwella sgiliau hanfodol a hyfforddiant yn y sector.

Darpariaethau'r Bil

37. Disgrifir darpariaethau'r Bil yn fanwl yn Atodiad A, Nodiadau Esboniadol y Bil. Mae'n cynnwys copi hefyd o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr 2012).

Costau

38. Mae darpariaethau'r Bil yn creu nifer o gostau ychwanegol o'u cymharu â'r opsiwn 'Gwneud Dim'.
39. Byddai cost i Lywodraeth Cymru o roi gwybod i randdeiliaid am y newidiadau. Amcangyfrifir y byddai'r gost untro honno'n dod i ryw £5,000. Cost arall i Lywodraeth Cymru fydd cynnal gwaith arolygu/gorfodi. Byddai hynny'n golygu cost hyfforddi untro o ryw £2,500 a chost flynyddol o ryw £37,600 am dîm o chwech o arolygwyr. Mae'r costau i Lywodraeth Cymru o sefydlu panel cynghori, darparu 'llinell gymorth' a'r gwasanaethau cyfreithiol gofynnol yn cael eu disgrifio yn yr RIA.
40. O'i gymharu â'r opsiwn 'Gwneud Dim', byddai cyfyngu ar hyblygrwydd busnesau fferm i bennu cyflogau yn gost ynddo'i hun. Byddai busnesau fferm sydd heb gontractau (o ddewis 'Gwneud Dim') yn gallu negodi'u telerau ac amodau cyflogau eu hunain, a phennu cyflog yn unol â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Nid oedd yn bosib mesur cost hyn yn yr amser oedd ar gael.
41. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi (Atodiad B).

Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

42. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl isod yn dangos, mewn perthynas â phob darpariaeth:

- yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os o gwbl, ynghyd â'r rheswm pam y tybir ei fod yn briodol.

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Y ffurflen | Priodoldeb pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|-------|------------------------|------------|--|-------------|--|
| 2(1) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan ei fod yn cynnig digon o hyblyrwydd i sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru ac wedi hynny, i newid ei swyddogaethau, heb fod angen newid deddfwriaeth sylfaenol. | Cadarnhaol | Mae'r pwerau'n cynnwys ystyriaethau o bwys arbennig gan fod y pŵer yn caniatáu creu corff cyhoeddus newydd, ac yna newid y swyddogaethau. |
| 2(3) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'r pwerau dirprwyedig yn briodol i Weiniogion Cymru allu cadw golwg ar y penodiadau i'r Panel a'u telerau ac amodau (yn enwedig yn ystod cyfnod o gyfyngder ariannol) ond hefyd i roi'r hyblygrwydd iddynt allu gwneud unrhyw newiadau sydd eu hangen i gyfansoddiad, pwerau cyffredinol a swyddogaethau'r panel. | Cadarnhaol | Mae'r pwerau'n cynnwys ystyriaethau o bwys arbennig gan y caiff prif hanfod y cynllun deddfwriaethol ei osod allan yn y gorchymyn a wneir wrth arfer y pŵer. |
| 3(1) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Gall Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol, ymhlith pethau eraill, bennu cyfraddau tâl ac amodau gwaith eraill gweithwyr yn y | Negyddol | Ceir deunydd technegol mewn Gorchymynion Cyflogau Amaethyddol ac maent yn tueddu i fod yn ddogfennau sylweddol. Mae'n debygol y bydd yn |

| Adran | I bwy y rhoddir y p er | Y ffurflen | Priodoldeb p er dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|----------|------------------------|------------|--|---|---|
| | | | sector amaethyddol. Mae'n addas defnyddio pwerau dirprwyedig i wneud darpariaethau o'r math hwn er mwyn cael yr hyblygrwydd i allu newid y manylion heb orfod newid deddfwriaeth sylfaenol. | | briodol diweddarau cynnwys y Gorchymyn yn rheolaidd. Mae'r weithdrefn negyddol felly'n adlewyrchu'r defnydd priodol o amser y Cynulliad. O dan y drefn bresennol, nid offerynnau statudol mo'r gorchymynion hyn, ac nid oes gweithdrefn yn y Senedd na'r Cynulliad yn gysylltiedig â nhw. |
| 6(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n addas i fod yn destun Rheoliadau er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i newid manylion ynghylch y cofnodion a siâp a llun y cofnodion hynny y bydd gofyn i gyflogwyr gweithwyr amaethyddol eu cadw heb orfod newid deddfwriaeth sylfaenol. | Cadarnhaol | Pwerau i osod beichiau ariannol ar gyflogwyr. Bydd torri'r rheoliadau yn drosedd gyda chosb o ddirwy ddiderfyn. Mae hon yn ystyriaeth o bwys arbennig. |
| 11(1)(b) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'n addas i fod yn destun Gorchymyn gan y daw â Gorchymyn nad oes ei angen mwyach i ben. | Negyddol | Pŵer technegol i ddod â Gorchymyn i ben, os na fydd Gweinidogion Cymru wedi dwyn gorchymyn o dan adran 3 ymlaen. |
| 13(1) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae'n addas i fod yn destun Gorchymyn gan ei fod yn darparu ar gyfer amgylchiadau anrhagweladwy y bydd angen mynd i'r afael â nhw i hwyluso pwrpas y Ddeddf (gan gynnwys newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall os oes angen). | Negyddol, oni bai ei fod yn newid deddfwriaeth sylfaenol - bryd hynny, byddai'n gadarnhaol. | Negyddol: Yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod bwriadau'r Cynulliad wrth basio'r Bil yn cael eu gwireddu. Yn hyn o beth, ni fydd pwnc gorchymynion o'r fath yn debygol o fod yn ddadleuol gan fod yr egwyddor eisoes yn destun cytundeb. Cadarnhaol: Galluogi gwneud darpariaethau sy'n newid testun deddfwriaeth sylfaenol. Bydd hyn yn gofyn am fwy o graffu gan y Cynulliad. |

ATODIAD A – Nodiadau Esboniadol

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn wedi'u paratoi gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Dylech eu darllen ar y cyd â'r Bil. Lle bo adran yn hunanesboniadol, nid oes sylw wedi'i ddarparu.

Adran 1 – Trosolwg

2. Mae'r adran hon yn esbonio beth mae'r Ddeddf yn ei wneud. Cyfeirir at dair prif agwedd:

sefydlu Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru i gynghori Gweinidogion Cymru ar sector amaethyddol Cymru, gwneud gorchmynion ar gyflogau amaethyddol sy'n nodi'r telerau a'r amodau ar gyfer gweithwyr amaethyddol, a gorfodi'r telerau a'r amodau yn y gorchmynion hynny.

3. Mae'r sylwadau isod yn esbonio pob un o'r darpariaethau hyn yn fanylach.

Adran 2 – Y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru

4. O dan yr adran hon, caiff Gweinidogion Cymru sefydlu panel o'r enw Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru ("y Panel").
5. Caiff Gweinidogion Cymru yn y gorchymyn sefydlu bennu swyddogaethau'r Panel. Bydd y swyddogaethau hyn yn ymwneud â'r sector amaethyddol a gallent gynnwys:

hybu gyrfaoedd mewn amaethyddiaeth, cynghori Gweinidogion Cymru ar orchmynion cyflogau amaethyddol, a cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion eraill allai effeithio ar y sector.

6. Gyda'r swyddogaethau hyn wedi'u pennu, gall Gweinidogion Cymru ofyn i'r panel ystyried llawer o agweddau ar y sector amaethyddol fel recriwtio a chadw gweithwyr a sut mae annog a chefnogi'r sector.
7. Cyn sefydlu'r Panel neu ei newid ar ôl ei sefydlu, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad priodol. Gallai gynnwys, er enghraifft, undebau'r ffermwyr a chynrychiolwyr eraill y sector, ffermwyr a gweithwyr amaethyddol.

Adran 3 – Gorchmynion amaethyddol

8. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion cyflogau amaethyddol. Ond cyn cael gwneud hynny, rhaid iddynt ymgynghori â'r bobl neu'r cyrff fydd yn debygol o fod â budd yn y gorchymyn. Yn ymarferol, undebau'r ffermwyr a chynrychiolwyr eraill y sector, ffermwyr a gweithwyr amaethyddol fydd y rheini.

9. Gorchymyn yw gorchymyn cyflogau amaethyddol sy'n nodi telerau ac amodau gwaith y mae'n rhaid ei gynnig i weithwyr amaethyddol yng Nghymru.

Gall bennu, yn arbennig -

y cyflogau y mae'n rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol (a all amrywio yn ôl cymwysterau a phrofiad y gweithiwr),
hawl y gweithiwr amaethyddol i wyliau y mae'n rhaid eu rhoi iddo, a telerau ac amodau gwaith eraill sy'n benodol i'r sector amaethyddol, megis er enghraifft, lwfans i fugail sy'n gorfod cadw ci fel rhan o'i waith.

10. Ni chaiff y cyflogau a bennir yn y gorchymyn amaethyddol fod yn llai na'r isafswm cyflog cenedlaethol (ICC) a bennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer pob gweithiwr.

Adran 4 – Gorfodi'r cyfraddau isaf

11. Mae'r adran hon yn creu'r drefn ar gyfer gorfodi darpariaethau'r gorchymyn cyflogau amaethyddol sy'n ymwneud â'r cyfraddau tâl isaf y mae'n rhaid eu talu i weithwyr amaethyddol. Gwna hynny'n bennaf gan ddefnyddio'r drefn (ond gyda rhai newidiadau) a sefydlwyd gan Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 ("Deddf 1998") ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r ICC.

12. Mae sawl agwedd i'r drefn orfodi.

Cofnodion

13. Mae adrannau 10 ac 11 Deddf 1998 yn rhoi'r hawl i weithwyr amaethyddol i archwilio cofnodion eu cyflogwyr i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu talu o leiaf y gyfradd isaf y maent yn gymwys iddi trwy orchymyn cyflogau amaethyddol. Ni chaiff gweithiwr wneud hynny ond pan fydd ganddo sail rhesymol i gredu nad yw'r swm cywir wedi'i dalu iddo. Rhaid i'r gweithiwr ddilyn y drefn a ddisgrifir yn adran 10 Deddf 1998 (fel y'i cymhwysir gan y Bil) i gael gweld y cofnodion.

14. Os na fydd y cyflogwr yn caniatáu i weithiwr weld y cofnodion, gall y gweithiwr fynd at driwlynys cyflogaeth i gwyno. Os gwêl y triwlynys fod sail i'r gŵyn, rhaid iddo wneud datganiad i'r perwyl hwnnw a dyfarnu swm o arian i'r gweithiwr.

Pwerau swyddogion

15. Mae adran 14 Deddf 1998 yn rhoi pwerau i'r swyddogion a benodir gan Weinidogion Cymru (gweler adran 7 isod) sicrhau y cydymffurfir â'r drefn orfodi. Mae gan swyddogion, yn benodol, ystod o bwerau ymchwilio i fynnu cael gweld gwybodaeth a chofnodion.

16. Mae'n drosedd (trwy adran 31(5) Deddf 1998) i berson arafu neu rwystro swyddog rhag gwneud ei ddyletswydd. Mae'n drosedd hefyd i berson wrthod ateb cwestiynau swyddog neu wrthod rhoi gwybodaeth y mae gan y swyddog yr hawl i ofyn i'r person ei darparu.

Hawl i daliad ychwanegol os bydd wedi'i dandalu

17. Mae adran 17 Deddf 1998 yn golygu, os caiff y gweithiwr amaethyddol ei dalu ar gyfradd sy'n is na'r gyfradd isaf y mae gan y gweithiwr yr hawl iddo trwy'r Bil, yna mae gan y gweithiwr yr hawl i daliad ychwanegol ar gyfer y cyfnod pan gafodd ei dandalu.
18. Caiff y tâl ychwanegol y mae gan y gweithiwr yr hawl iddo ei gyfrif ar sail wahanol i'r hyn a geir yn Neddf 1998, hynny oherwydd newidiadau yn is-adran (5) y Bil. Mae gan y gweithiwr yr hawl i'r mwyaf o'r ddau isod:

y gwahaniaeth rhwng yr hyn a dalwyd i'r gweithiwr a'r hyn y dylai'r gweithiwr fod wedi'i gael, a
y swm a gyfrifwyd yn unol â'r fformiwla a nodir yn is-adran newydd (4) y Bil.

Hysbysiad o dandaliad

19. Mae adrannau 19, 19C, 19D, 19F, 19G ac 19H Deddf 1998 yn rhoi'r fecanwaith i swyddogion gorfodi allu rhoi hysbysiad i gyflogwr sydd, ym marn y swyddog, heb dalu'r swm dyledus llawn (dandalu) i weithiwr neu weithwyr. Mae'r hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr dalu'r swm sy'n ddyledus i'r gweithiwr (wedi'i gyfrif yn unol ag adran 17 fel y'i cymhwysir gan y Bil) o fewn 28 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad iddo.
20. Caiff cyflogwr y rhoddwyd hysbysiad o dandaliad iddo apelio i driwlynlys cyflogaeth.
21. Os na chydymffurfir â hysbysiad (boed yn llwyr neu'n rhannol), caiff swyddog wneud cwyn ar ran y gweithiwr i driwlynlys hawliau cyflogaeth.
22. Yn wahanol i Ddeddf 1998, nid yw'r Bil yn darparu ar gyfer rhoi cosb ariannol (heblaw'r swm sy'n ddyledus) ar gyflogwyr.

Yr hawl i beidio â dioddef niwed

23. Mae adrannau 23 a 24 Deddf 1998 yn rhoi'r hawl i weithiwr beidio â dioddef niwed gan ei gyflogwr:
 - am i'r gweithiwr fynnu ei hawliau o dan y Bil (neu bod rhywun yn mynnu'r hawliau hynny drosto),
 - am fod cyflogwr y gweithiwr yn cael ei erlyn o dan y Bil, neu
 - am fod gan y gweithiwr yr hawl neu am iddo gael yr hawl (neu fod posibilrwydd i hynny ddigwydd) i gael y gyfradd tâl isaf yn unol â'r Bil
24. Os bydd cyflogwr yn peri niwed i weithiwr am i'r gweithiwr fynnu'i hawliau, caiff y gweithiwr wneud cwyn i driwlynlys cyflogaeth.

Troseddau

25. Mae adrannau 31 a 33 yn ymdrin â throseddau mewn cysylltiad â:

pheidio â thalu'r gyfradd isaf y mae gan weithiwr amaethyddol yr hawl iddi;
peidio â chadw'r cofnodion y mae'n ofynnol i gyflogwr eu cadw trwy reoliadau
a wnaed o dan adran 6 y Bil;
cofnodi neu wedi cofnodi neu ganiatáu cofnodi gwybodaeth ffug yn y
cofnodion hynny;
darparu gwybodaeth neu gofnodion y mae'r person sy'n eu darparu'n gwybod
eu bod yn cynnwys gwybodaeth sy'n ffug mewn ffordd arwyddocaol;
arafu neu rwystro swyddogion rhag gwneud eu dyletswyddau neu wrthod ateb
cwestiynau swyddog neu wrthod rhoi gwybodaeth neu gofnodion perthnasol i
swyddog.

Y gosb am y troseddau hyn yw dirwy ddiderfyn.

26. Caiff swyddog gorfodi, o gael caniatâd Gweinidogion Cymru, drafod y drosedd ger bron llys ynadon.

Cyfyngiadau ar gontractio allan

27. Mae adran 49 Deddf 1998 yn rhwystro gweithwyr amaethyddol a'u cyflogwyr rhag cytuno ar gontract a fyddai'n caniatáu iddynt osgoi'r telerau ac amodau lleiaf a gynhwysir mewn gorchymyn cyflogau amaethyddol.

28. Nid yw hyn yn gymwys i'r cytundebau a lofnodwyd er mwyn datrys neu osgoi tribiwnlys cyflogaeth.

Diswyddo annheg

29. Yn ôl is-adran (7), mae gweithiwr amaethyddol wedi'i ddiswyddo'n annheg os ydy'r rheswm (neu'r prif reswm) am ei ddiswyddo'n ymwneud â:
y gweithiwr yn mynnu ei hawliau o dan y Bil,
am fod cyflogwr y gweithiwr yn cael ei erlyn o dan y Bil, neu
am fod gan y gweithiwr yr hawl neu am iddo gael yr hawl (neu fod posibilrwydd i hynny ddigwydd) i gael y gyfradd tâl isaf yn unol â'r Bil

Adran 5 – Gorfodi'r hawl i wyliau

30. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gweithiwr amaethyddol yng Nghymru beidio â chaniatáu i weithiwr gael y gwyliau a nodir mewn gorchymyn cyflogau amaethyddol a noda mai dirwy lefel 3 ar y raddfa safonol (£4000 ar hyn o bryd) yw'r ddirwy y bydd yn rhaid ei thalu o'i gael yn euog.

31. Wrth erlyn cyflogwr am beidio â gadael i weithiwr gael gwyliau, mater i'r cyflogwr yw profi bod y gweithiwr wedi cael cymryd gwyliau.

Adran 6 – Dyletswydd cyflogwyr i gadw cofnodion

32. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gweithwyr amaethyddol gadw cofnodion penodol sy'n berthnasol i'r Ddeddf.
33. Er enghraifft, gallai'r cofnodion hyn gynnwys slipiau cyflogau, taflenni amser, contract cyflogaeth a gwybodaeth sy'n ymwneud â gwyliau.
34. Os gwnaiff Gweinidogion Cymru reoliadau o dan yr adran hon, yn rhinwedd adran 4 y ddeddf, bydd yn drosedd i gyflogwr beidio â chadw'r cofnodion perthnasol neu i roi gwybodaeth ffug yn fwriadol (neu ganiatáu iddi gael ei rhoi). Y gosb am hyn, o'i gael yn euog, yw dirwy ddiderfyn.

Adran 7 – Penodi swyddogion

35. Mae'r adran hon yn caniatáu Gweinidogion Cymru i benodi swyddogion gorfodi i weithredu yng Nghymru.
36. Wrth wneud eu dyletswyddau, rhaid i swyddogion o ofyn amdano ddangos prawf adnabod addas i ddangos eu bod wedi cael caniatâd i wneud y dyletswyddau hynny.
37. Hefyd, lle bo swyddogion o dan yr argraff nad yw person y maent yn siarad ag ef yn gwybod eu bod yn gwneud dyletswydd mewn cysylltiad â gorfodi'r ddeddfwriaeth, rhaid i'r swyddogion esbonio hynny i'r person.

Adran 8 – Gwybodaeth a ddaw i feddiant swyddogion

38. O dan yr adran hon, os bu i swyddog gael gwybodaeth at ddiben y Ddeddf, caniateir iddo roi'r wybodaeth i Weinidogion Cymru (fel arfer iddynt allu erlyn o dan y Ddeddf) neu i'r person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef (er mwyn dwyn achos sifil mewn cysylltiad â'r tandaliad).
39. Fodd bynnag, ni chaniateir i Weinidogion Cymru roi'r wybodaeth a geir o dan yr adran hon i unrhyw berson neu gorff arall oni bai bod ei hangen at ddiben achos sifil neu droseddol.

Adran 9 – Ystyr yr “isafswm cyflog cenedlaethol”

40. Mae'r adran hon yn rhoi diffiniad o'r “ICC” at ddiben y Bil hwn.
41. Yn y rhan fwyaf o achosion, dyma'r gyfradd sengl yr awr a bennir yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 1(3) Deddf 1998.
42. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn isadran (2) i (5), gallai ICC gwahanol fod mewn grym.

Adran 10 – Diwygio'r Rheoliadau Oriau Gwaith

43. Mae'r ddarpariaeth hon yn gwneud newidiadau canlyniadol i Reoliadau Oriau Gwaith 1998 i sicrhau bod y rheoliadau hynny'n parhau i fod yn gymwys i weithwyr amaethyddol yng Nghymru fel ag y maent yn awr.

Adran 11 – Darparieth Drosiannol

44. Mae'r adran hon yn ymwneud â darpariaethau Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 (fel ag yr oeddynt pan wnaed y gorchymyn ar 20 Gorffennaf 2012) i effeithio ar weithwyr amaethyddol yng Nghymru o 1 Hydref 2013. Daw effaith y darpariaethau hyn i ben pan fydd Gweinidogion Cymru'n gwneud gorchymyn cyflogau amaethyddol newydd o dan adran 3 y Bil neu'n gorchymyn dileu darpariaethau Gorchymyn Cyflogau 2012.
45. At ddiben gorfodi darpariaethau Gorchymyn Cyflogau 2012 o 1 Hydref 2013, bernir ei fod yn orchymyn a wnaed o dan adran 3 y Bil. Caiff yr hawliau a'r rhwymedigaethau a fydd wedi'u cronni cyn 1 Hydref 2013 eu gorfodi o dan Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948: gweler erthygl 4 Gorchymyn Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (Cychwyn Rhif 1, Darpariethau Trosiannol ac Arbedion) 2013. (OS. 2013/1455).
46. Os bydd yr ICC yn codi unrhyw bryd yn uwch nag unrhyw gyfradd isaf o'r Gorchymyn Cyflogau 2012, bernir bod y gyfradd isaf dan sylw yr un faint â'r isafswm cyflog cenedlaethol.
47. Er hwylustod cyfeirio, mae copi o Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012, a wnaed gan Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU i'w weld mewn hyperddolen i'r Nodiadau hyn. Gwnaed Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU. Nid yw'n ofynnol i Lywodraeth y DU wneud Gorchymynion yn Gymraeg a Saesneg.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69593/awo12.pdf

Adran 12 – Troseddau gan gyrrff corfforaethol

48. O dan yr adran hon, pan fydd corff corfforaethol (fel cwmni) wedi troseddu o dan y Bil (boed o dan adran 4 neu 5), gellid cael cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd neu swyddog tebyg o fewn corff corfforaethol (neu berson sy'n honni ei fod yn dal swydd o'r fath) yn euog o'r drosedd honno a'i gosbi os oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r drosedd, yn gwybod amdani (ac wedi gwneud dim) neu y dylai'n rhesymol fod yn gwybod amdani.

Adran 13 – Darpariaeth ategol

49. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion at ddiben rhoi effaith lawn i'r Ddeddf neu mewn cysylltiad â hynny.
50. Gellid defnyddio hyn, er enghraifft, i wneud newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall ar ôl sefydlu'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru.

Adran 14 – Gorchmynion a Rheoliadau

51. Mae'r adran hon yn darparu mai trwy offerynnau statudol y mae arfer pwerau Gweinidogion i wneud gorchmynion a rheoliadau. Wrth wneud hynny, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth arall er mwyn rhoi effaith lawn i'r gorchmynion neu'r rheoliadau hynny (megis i ddelio â materion trosiannol).
52. Daw gorchmynion adran 2 ac adran 13 (sy'n newid testun Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf Seneddol) o dan y weithdrefn gadarnhaol fel y rheoliadau a wneir o dan adran 6.
53. Daw gorchmynion eraill o dan y weithdrefn negyddol.

Adran 15 – Dehongli

54. Mae'r adran hon yn esbonio ystyr prif dermau'r Ddeddf.
55. Yn y cyswllt hwn, mae diffiniadau o'r termau "gweithiwr amaethyddol" ac "amaethyddiaeth" yn neilltuol o berthnasol.
56. Gweithiwr amaethyddol" yw person a gyflogir ym maes amaethyddiaeth yng Nghymru. Bydd cyflogwr y person hwnnw, hyd yn oed os yw y tu allan i Gymru, yn gorfod ei dalu yn unol â darpariaethau'r Bil.
57. Mae "amaethyddiaeth" yn golygu mwy na'i ystyr cyffredin arferol. O ganlyniad, er ei fod yn cynnwys trin y tir i dyfu cnydau a magu anifeiliaid i gynhyrchu bwyd, gwllân a chynhyrchion eraill, gall olygu hefyd weithgareddau fel godro, defnyddio tir i dyfu coed helyg neu fel gardd farchnad.

Adran 16 – Cychwyn

58. Daw'r Bil i rym ar y diwrnod pan gaiff Gydsyniad y Frenhines.

ATODIAD B – Aseiad Effaith Rheoleiddiol

1. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno tri opsiwn gwahanol mewn cysylltiad â'r maes polisi a ddaw o dan y Bil. Mae categorïau cost a budd bras wedi'i diffinio ar gyfer pob opsiwn. Fodd bynnag, yn yr amser oedd gennym, ni fu'n bosibl cynnal dadansoddiad manwl o gostau a buddiannau pob opsiwn. Yn arbennig, ni fu'n bosibl mesur effaith y cynigion ar fusnesau fferm Cymru. Byddai'n rhaid wrth ymchwil fanwl i strwythur y diwydiant, amodau'r farchnad lafur, y cyfraddau tâl cyfredol ac ymatebion ymddygiadol posibl er mwyn medru cynnal aseiad digonol. O gofio'r ansicrwydd ynghylch y materion hyn, nid yw'n bosibl cynnig amcangyfrif da o gostau'r diwydiant ffermio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rhaid ystyried y gosodiad hwn yng nghyd-destun Bil sydd, ar hyn o bryd, ond yn ceisio **cadw** trefn reoleiddio sy'n bod eisoes ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

OPSIYNAU

Opsiwn 1 - Gwneud dim

2. O dan yr opsiwn hwn, bydd AWB Cymru a Lloegr yn peidio â bod na'r Gorchymyn chwaith o 1 Hydref 2012. Fodd bynnag, bydd unrhyw hawliau y bydd gweithwyr wedi'u crynhoi o dan gontractau sy'n bodoli pan ddaw'r gorchymyn i ben yn parhau mewn grym tan y caiff y contractau eu hailnegodi. Yn yr un modd, disgwylir i newidiadau yn sgil diwedd yr AWB a Gorchymyn 2012 ddigwydd dros gyfnod o amser wrth i weithwyr newydd ymuno â'r diwydiant ac i gontractau ddod i ben ar gyfer eu hailnegodi. Er bod y drefn statudol yn cynnig rhwyd diogelwch a chyfradd tâl isaf, bydd amodau'r farchnad lafur leol a'r cyflenwad a'r galw yn parhau i ddylanwadu ar delerau ac amodau llawer o weithwyr.

Opsiwn 2 – Diogelu effaith Gorchymyn 2012 yng Nghymru a rhoi cyfle i Weinidogion Cymru greu trefniadau cynghori addas a Gorchymynion newydd mewn cysylltiad â'r sector amaethyddol yng Nghymru yn ôl y gofyn.

3. O dan yr opsiwn hwn, caiff y mesurau statudol a roddir i amddiffyn gweithwyr o dan Orchymyn 2012 ynghyd â'r drefn orfodi (gyda rhai newidiadau) eu diogelu a'u cadw. Mae rhesymau da i gredu na fyddai cadw'r drefn reoleiddio sy'n bodoli ac yn hysbys ac sydd eisoes yn effeithio ar gyflogwr pob gweithiwr amaethyddol yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar fusnesau fferm ac yn y tymor byr, bydd pethau'n parhau'n ddigyfnewid. At hynny, mae'r ffaith bod gan lawer o weithwyr hawliau contractyddol eisoes i gyfradd tâl a thelerau ac amodau penodol yn arwydd arall na chaiff yr opsiwn hwn fawr o effaith ar gyflogwyr yn y tymor byr. Yn y cefndir hwn, mae'r Bil yn rhoi'r hyblygrwydd trwy Orchymyn i Weinidogion Cymru allu newid y mesurau amddiffyn y byddai wedi'u diogelu hyd yma neu ddiddymu'r mesurau amddiffyn hynny'n llwyr os teimlir bod angen hynny er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn gweithio'n effeithiol. Mae'r Bil yn rhoi'r cyfle i Weinidogion Cymru sefydlu panel arbenigol i'w helpu â'u penderfyniadau i sicrhau bod y sector eiwa ar system o dâl ac amodau wedi'u rheoleiddio.

Opsiwn 3 – Sefydlu Panel Cyngori Amaethyddol anstatudol i Gymru

4. Bydd yr opsiwn hwn yn golygu sefydlu bwrdd cyngori anstatudol i roi cyngor yn y meysydd y mae'r AWB yn eu rheoleiddio'n statudol ar hyn o bryd. Byddai'r bwrdd cyngori'n gallu rhoi cyngor yn syth ar ôl diddymu'r AWB. Dim ond cyngor ac argymhellion ynghylch arfer gorau y caiff y bwrdd cyngori eu rhoi a bydd yn dibynnu ar fusnesau fferm yn gwirfoddoli i gydymffurfio.

COSTAU

Opsiwn 1 – Gwneud dim

5. O dan yr opsiwn hwn, disgwylir y bydd amodau a thelerau gwaith gweithwyr fferm yn addasu dros gyfnod o amser gan ddibynnu ar y galw am lafur a'r cyflenwad ohono ac ymatebion ymddygiadol.
6. Ni fydd gan y sector cyhoeddus gostau cefnogi gwaith bwrdd cyflogau. Hwn yw'r opsiwn sy'n gosod y llinell sylfaen ac fe'i defnyddir i asesu costau a buddiannau'r opsiynau eraill.

Opsiwn 2 – Diogelu effaith Gorchymyn 2012 yng Nghymru a rhoi cyfle i Weinidogion Cymru greu trefniadau cyngori addas a Gorchymynion newydd mewn cysylltiad â'r sector amaethyddol yng Nghymru yn ôl y gofyn.

7. Gellid dadlau na fydd yr opsiwn yn golygu newid i'r sector amaethyddol yng Nghymru yn syth gan ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i gadw effeithiau Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol presennol 2012. O dan yr opsiwn hwn, bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i benderfynu a ddylid cadw'r Gorchymyn presennol o gwbl yn y tymor canolig i hir neu a oes angen Gorchymyn newydd, a sut mae asesu effeithiau posibl hynny.

Cost i Fusnesau Fferm

8. O'u cymharu â'r opsiwn 'Gwneud Dim', byddai cost bosibl i fusnesau fferm o gyfyngu ar eu hyblygrwydd i bennu cyflogau. Lle nad oes trefniadau contractyddol yn bod neu eu bod wedi dod i ben, byddai busnesau fferm (o ddewis 'Gwneud Dim') wedi gallu negodi amodau a thelerau yn unol ag amodau'r farchnad lafur leol (yn amodol wrth gwrs ar y rhwyd diogelwch statudol a roddir gan Ddeddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998). Gweler trafodaeth bellach am hyn isod.

Costau cydymffurfio

9. Wedi'r tymor byr, disgwylir i'r rhan fwyaf o gostau'r opsiwn hwn fod yn gysylltiedig â throsglwyddo arian o fusnesau fferm i newydd-ddyfodiaid i ffermio a'r gweithwyr hynny fydd yn ailnegodi'u contractau. Ni ragwelir y bydd unrhyw gost ychwanegol i'r busnesau hynny sydd eisoes yn cyflogi gweithwyr oedd â

chontractau parhaol wedi'u llofnodi cyn diddymu Gorchymyn 2012. Ni fydd gan hyn unrhyw effaith net ar economi'r DU. Gellir rhannu'r costau hynny yn ôl y categorïau bras canlynol:

Effaith ar lefel y cyflogau a delir i weithwyr fferm;
Newid gwerth tâl salwch a'r hawl i wyliau;
Effaith darparu llety.

10. Bydd unrhyw **gost ychwanegol** i fusnesau fferm yn dibynnu ar nifer y newydd-ddyfodiaid i ffermio a nifer y gweithwyr y bydd angen ailnegodi eu contractau ynghyd â strwythur y diwydiant ffermio yng Nghymru, y gwahaniaeth rhwng y cyfraddau a'r telerau a bennir gan y drefn statudol yng Nghymru a'r rheini a geid o dan amodau marchnad lafur leol sydd heb ei rheoleiddio (gyda'r drefn Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn sail iddo). Er enghraifft, mae'r galw am lafur amaethyddol yn debygol o effeithio ar gyflogau, i ryw raddau o leiaf. Felly, gallai pennu cyflogau sy'n uwch nag y byddent fel arall yn debygol o arwain at lai o gyflogaeth, gan liniaru'r effaith ar gostau'r fferm. Ond fel yr awgrymir uchod, gellid dadlau na fydd yr effaith hyd at y tymor byr yn fawr, gan y bydd gan lawer o weithwyr hawliau wedi'u crynhoi a chontractau'n seiliedig ar y system bresennol. Ni fydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio ar unrhyw hawliau fydd wedi'u crynhoi ond gallai wrth gwrs effeithio ar newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.
11. Os bydd y nifer a gyflogir yn is nag y byddai fel arall, byddai hynny'n gost economaidd real yn hytrach nag yn drosglwyddiad ariannol. Ar y llaw arall, gallai cyflog uwch yn ei dro sbarduno cynhyrchiant uwch (trwy gymell cyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant) gan wneud iawn am y costau. Dylid nodi yn y cyd-destun hwn bod isafswm cyflog y DU wedi'i bennu ar y lefel uchaf sy'n bosibl heb effeithio'n andwyol ar gyflogaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu asesiad cyfartalog ar draws economi'r DU yn gyfan – bydd effeithiau andwyol ar gyflogaeth yn fwy (llai) tebygol mewn diwydiannau llai (mwy) proffidiol. Mae lle i ddisgwyl felly effeithiau andwyol ar gyflogaeth, o leiaf mewn rhai sectorau amaethyddol.
12. Disgwylid hefyd i unrhyw newidiadau i gyflogau a thelerau ac amodau eraill o ganlyniad i'r cynigion effeithio ar y costau cyflogaeth a delir i lywodraeth ac eraill (er enghraifft, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol). Bydd yn effeithio hefyd ar yr arian treth a dderbynnir (a fydd yn uwch os bydd cyflogau'n uwch, ond yn is os bydd effeithiau andwyol ar lefelau cyflogaeth). Bydd effeithiau tebyg yn debygol ar daliadau budd-dal, ond i'r cyfeiriad arall.
13. Yn **yr amser oedd gennym, nid oedd yn bosibl cynnal asesiad manwl o gost y cynigion i fusnesau fferm**. Byddai'n rhaid wrth ymchwil fanwl i strwythur y diwydiant, amodau'r farchnad lafur a'r cyfraddau tâl cyfredol i gynnal asesiad digonol. Fodd bynnag, mae'n rhaid pwysleisio unwaith eto mai effaith uniongyrchol y cynnig yw cadw'r hyn sydd eisoes yn bod. Caiff Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn ei gynnal cyn cyhoeddi unrhyw Orchymyn newydd.
14. Mae'r paragraffau isod yn ystyried rhai o'r prif faterion.

15. Yn ôl yr Arolwg o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, ym mis Mehefin 2012, roedd yna ryw 58,000 o weithwyr amaethyddol yng Nghymru. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini (dros 75%) yn brif ffermwyr sy'n cael eu hincwm o elw'r busnes yn hytrach na chyflog.
16. Mae'r data'n dangos bod ychydig dros 13,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi'n rheolaidd (boed amser llawn neu ran-amser) neu'n achlysurol. Er mai hwn yw'r amcangyfrif gorau sydd gennym o nifer y gweithwyr amaethyddol yng Nghymru, efallai nad yw'n adlewyrchu'r cyfanswm y bydd y ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt. Ar y naill law, mae'r ffigur hwn yn debygol o gynnwys nifer o aelodau o deulu'r ffermwr a gweithwyr digyflog eraill, ond ar yr un pryd, mae'r Arolwg ond yn cyfri'r rheini sy'n gweithio ar 'ddiwrnod yr arolwg' ar ddechrau mis Mehefin. Mae'n bosibl felly nad yw'n cyfri'r holl weithwyr achlysurol (yng Nghymru, mae nifer fawr o weithwyr achlysurol yn gweithio yn y gwanwyn i helpu gyda'r wyna).
17. Yn ogystal â nifer y gweithwyr amaethyddol a gyflogir, bydd y gost i fusnesau fferm yn dibynnu ar strwythur y drefn statudol ar gyfer y gweithwyr hynny. Ym mhen isa'r raddfa ar hyn o bryd, telir gweithwyr Gradd 1 £6.21 yr awr o dan delerau Gorchymyn 2012, sef dwy geiniog yn fwy na'r isafswm cyflog cenedlaethol. Mae'r Gorchymyn yn amddiffyn gweithwyr amaethyddol ar radd uwch yn well gan ddod â mwy o fanteision iddynt (gan roi mwy o gost ar ysgwyddau busnesau fferm sy'n cyflogi'r gweithwyr hyn).
18. Mae'r uchod yn rhagdybio y byddai busnesau fferm heb Orchymyn, yn talu'r Isafswm Cenedlaethol i weithwyr. Ond mae sawl rheswm i gredu pam nad fel hynny y byddai pethau, yn bennaf oherwydd effaith y cyflenwad o weithwyr a'r galw amdanynt, a mudoedd llafur.
19. Daw'r tabl isod o adroddiad i'r Comisiwn Cyflogau Isel⁴ ac awgrymir bod dros hanner gweithwyr amaethyddol Cymru a Lloegr yn derbyn cyflog premiwm sy'n uwch na'r gyfradd fesul awr a bennwyd gan yr AWB yn 2010. Mae hyn yn awgrymu bod tuedd i ddefnyddio cyfraddau'r AWB fel canllaw ar gyfer trafodaethau am gyflogau, ond nad ydynt yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol. Os oedd gweithwyr yn cael llai na chyfraddau'r AWB ar gyfer eu gradd, credir mai gweithwyr Gradd 1 oeddynt, y talwyd yr Isafswm Cenedlaethol iddynt.

Tabl 1. Gweithwyr y telir mwy/llai na chyfradd fesul awr yr AWB iddynt yng Nghymru a Lloegr

| Type of worker | Below the rate | At the rate or 1p above | 2p to 10p premium | More than 10p premium |
|----------------|----------------|-------------------------|-------------------|-----------------------|
| Full time | 28% | 17% | 6% | 50% |
| Part time | 30% | 14% | 2% | 54% |
| Casual | 26% | 24% | 12% | 38% |

Source: Earnings and Hours of Agricultural and Horticultural Workers (Defra).

⁴ The implications for the National Minimum Wage of the abolition of the Agricultural Wages Board in England and Wales: A report for the Low Pay Commission, Incomes Data Services, December 2011.

20. Dengys yr asesiad o effaith a gynhaliwyd gan Defra⁵ y byddai **dileu** AWB Cymru a Lloegr yn arwain at aiddosbarthu rhwng £0 (dim aiddosbarthiad) a £280 miliwn oddi wrth weithwyr amaethyddol i fusnesau fferm. Mae ystod eang y costau a gyflwynwyd yn dangos mor ansicr yw'r dadansoddiad, yn enwedig o safbwynt yr ymatebion ymddygiadol. Lloegr fydd yn teimlo effaith yr amcangyfrif hwn fwyaf. Disgwylir i'r effaith fod yn llai yng Nghymru.

Cost weinyddol

21. Yn ogystal â chost cydymffurfio, bydd cost i fusnesau fferm o ymgynefino â darpariaethau'r drefn statudol yng Nghymru, er hyd at y tymor byr, mae'r darpariaethau presennol yn cael eu diogelu. Bydd llawer o'r darpariaethau eisoes yn gyfarwydd i weithwyr. Bydd gofyn i ffermwyr wybod am y darpariaethau Cymreig a deddfwriaeth lafur y DU (er enghraifft, mewn perthynas â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol) i wneud yn siŵr eu bod yn talu gweithwyr yn iawn. Mae hyn yn arbennig o wir os ydy gweithiwr y ffermwr yn gweithio ar weithgareddau sydd heb fod yn rhai amaethyddol. Bydd yn rhaid talu am y rheini yn unol â deddfwriaeth y DU. Rhaid ysgwyddo'r gost hon bob tro y cyhoeddir gorchymyn newydd.
22. Rhagdybir y bydd angen 1 awr ar bob cyflogwr i ddysgu'r gofynion Cymreig. Ar sail data Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol, amcangyfrifir mai £11.89 yw cost amser ffermwr fesul awr £11.89. Mae angen dadansoddiad pellach i weld sawl busnes fferm sy'n cyflogi gweithwyr amaethyddol yng Nghymru.

Y Gost i Lywodraeth Cymru

Costau trosiannol

23. Byddai sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yn golygu cost ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig cofio na fydd y panel union yr fath â'r AWB ac yn bwysicach, nad hwnnw fydd yn gyfrifol am wneud Gorchymion Amaethyddol.
24. Byddai cost untro i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid (er enghraifft busnesau fferm, gweithwyr fferm ac undebau ffermwyr) am y cynigion. Amcangyfrifir mai £5,00 fydd cost yr ymarferiad cyfathrebu hwn. Yn ogystal, byddai cost untro i hyfforddi'r arolygwyr o ryw £2,500. Cyfanswm costau trosiannol Llywodraeth Cymru felly yw £7,500.
25. Serch y sylwadau ym mharagraff 25 ac i ddarlunio'r sefyllfa yn unig, nodir nad yw'r AWB yn cyflogi staff yn uniongyrchol a darperir cymorth ysgrifenyddol gan Defra. Y gyllideb bresennol ar gyfer rhedeg AWB Cymru a Lloegr yw £179,000 y flwyddyn a daw'r arian hwnnw o gyllideb Defra. Mae'r ffigur yn cynnwys costau

⁵ Gwelir yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/82649/awb-consult-final-ia-20121219.pdf

ymbresenoli, lletygarwch, teithio a chynhaliaeth a thalu am gyngor cyfreithiol. Hefyd, mae yna gostau argraffu'r Gorchymyn - £24,601.60 ym mlwyddyn ariannol 2009/10. Costau staff blwyddyn ariannol 2009/10 oedd £21,993.⁶

26. Fodd bynnag, disgwylir i gost Panel Cyngori Cymru'n unig fod lawer is gan y bydd ei swyddogaethau (yn enwedig os na fydd ganddo swyddogaeth gwneud Gorchymyn) yn wahanol i rai'r AWB. Amcan y polisi yw symleiddio gwaith y Panel (o'i gymharu â'r AWB) a chadw costau rhedeg mor fach â phosibl. Gellid defnyddio byrddau Gogledd Iwerddon a'r Alban fel esiamplau ar gyfer sefydlu Panel Cyngori Amaethyddol i Gymru sy'n fodern, effeithiol ac isel ei gostau. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cynhyrchu ffigurau staffio a gallwn eu defnyddio i roi syniad bras i ni o'r costau rhedeg.

Costau eildro

27. Gan nad ydym wedi penderfynu eto sut y byddai Panel Cyngori Amaethyddol yn gweithio, nid yw'n bosibl cynnig ffigurau union ar gyfer y Panel ei hun na chwaith faint o staff fydd ei angen.
28. Ar sail lefel y cymorth sydd ei angen ar y SAWB, amcangyfrifir mai tua £58,000 y flwyddyn fydd y gost weinyddol i Lywodraeth Cymru o gynnal Panel Cyngori Amaethyddol yng Nghymru a pharatoi a darparu llinell gymorth i fusnesau fferm a gweithwyr amaethyddol a chyhoeddi gorchmynion newydd ac ati.
29. Cost flynyddol arall i Lywodraeth Cymru fydd cynnal gwaith arolygu/gorfodi. Yn ôl Arolygiaeth Wledig Cymru, byddai angen tîm o 6 o arolygwyr (gan gynnwys arweinydd) i wasanaethu Cymru gyfan. Byddai'r tîm yn costio rhyw £37,600 y flwyddyn.
30. Bydd talu am gymorth cyfreithiol ychwanegol i baratoi'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol o dan y Bil ac i baratoi cyngor ar fentrau a ddygir ymlaen gan unrhyw fwrdd cyngori ac ar unrhyw weithgarwch gorfodi a gynhelir gan yr arolygwyr a benodwyd yn golygu cost i Lywodraeth Cymru. £69,920 yw costau cyfreithiol SAWB. Fodd bynnag, disgwylir i'r rhain fod yn llai yng Nghymru oherwydd maint cymharol y diwydiant. Amcangyfrifwn mai hyd at £50k y flwyddyn fydd y gost.
31. Amcangyfrifir mai tua £25,000 fydd costau'r Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth Cymru. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau ymbresenoli, teithio a chynhaliaeth a lletygarwch.

⁶ Daw'r data o **Report on Wages in Agriculture 1 January to 31 December 2010**; Defra a Llywodraeth Cymru 2011

Tabl 2. Costau Llywodraeth Cymru yn Opsiwn 2

| | Number of staff | Proportion of time | Mid-point of pay-scale ⁽¹⁾ (£) | Cost (£) |
|-------------------------------|-----------------|--------------------|---|----------------|
| Transition costs | | | | |
| Communications | | | | 5,000 |
| Training | | | | 2,500 |
| Total Transition costs | | | | 7,500 |
| Recurrent costs | | | | |
| Administration | | | | |
| Head of Branch | 1 | 20% | 62,610 | 12,520 |
| HEO | 1 | 60% | 37,410 | 22,450 |
| EO | 1 | 60% | 30,110 | 18,070 |
| TS | 1 | 20% | 24,050 | 4,810 |
| Inspection | | | | |
| HEO | 1 | 20% | 37,410 | 7,480 |
| EO | 5 | 20% | 30,110 | 30,110 |
| Legal services | | | | 50,000 |
| Total staff costs | | | | 145,440 |
| Advisory Panel | | | | 25,000 |
| Total Recurrent costs | | | | 170,440 |

(1) Yn cynnwys 30% o 'argostau'.

Costau ehangach

32. Mae dwy gost bosibl ehangach mewn cysylltiad â chadw trefn reoledig ar gyfer pennu telerau ac amodau i weithwyr amaethyddol yng Nghymru.
33. Fel y trafodir uchod, dywed theori economaidd, wrth bennu cyflogau ar gyfer gweithwyr amaethyddol sy'n uwch na lefel y farchnad gellid disgwyl i hynny arwain at leihau **lefelau cyflogaeth**. Mae asesiad Defra i effaith dileu'r AWB⁷ yn awgrymu bod y lefelau cyflogau lleiaf a bennwyd gan AWB Cymru a Lloegr wedi arwain at 0.36% i 0.68% yn llai o swyddi yn y diwydiant.
34. Gallai mesurau statudol i amddiffyn cyflogau yng Nghymru gael effaith negyddol ar allu cynhyrchwyr Cymru i **gystadlu** gan y gallai costau cynhyrchu fod yn uwch na chostau cystadleuwyr yn Lloegr lle caiff mesurau amddiffyn cyflogau eu dileu ym mis Hydref 2013.

⁷ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/82649/awb-consult-final-ia-20121219.pdf

Opsiwn 3 – Sefydlu Panel Cyngkori Amaethyddol anstatudol i Gymru

Costau i fusnesau fferm

35. Fel Opsiw 2, mae'r rhan fwyaf o'r costau sydd ynghlwm wrth yr opsiwn hwn yn gysylltiedig â throsglwyddo arian o fusnesau ffermio i weithwyr amaethyddol. Ond gyda'r opsiwn hwn, gan y byddai'r Panel Cyngkori Amaethyddol yn cyngkori ar gynllun cyflogau gwirfoddol, ni fydd rheidrwydd ar fusnesau fferm i roi argymhellion y Panel ar waith. Gallai hyn arwain o bosibl (o'i gymharu ag Opsiw 2) at leihau'r costau i fusnes y fferm.
36. Mae'r drafodaeth a gafwyd yn Opsiw 2 yn berthnasol i'r Opsiw hwn hefyd. **Fel ag yn achos Opsiw 2, ni fu'n bosibl dadansoddi'r costau'n fanwl yn yr amser a gafwyd.**

Y costau i Lywodraeth Cymru

37. Rhagdybir mai'r un fydd y costau untro ag Opsiw 2, tua £5,000, i Lywodraseth Cymru ar gyfer hysbysu rhanddeiliaid am y trefniadau newydd. Dyma'r unig gostau trosiannol i Lywodraeth Cymru o'r opsiwn hwn.
38. Rhagdybir y byddai'r gost i Lywodraeth Cymru o gefnogi'r Panel Cyngkori ar Amaethyddiaeth Cymru, gan ddarparu 'llinell gymorth' i fusnesau fferm a gweithwyr amaethyddol a pharatoi a chyhoeddi gorchmynion newydd, yr un faint â chost Opsiw 2 – sef tua £58,000 y flwyddyn.
39. Rhagdybir mai'r un fydd cost panel cyngkori amaethyddol ag Opsiw 2, tua £25,000 y flwyddyn.

Tabl 3. Costau Llywodraeth Cymru yn Opsiwn 3

| | Number of staff | Proportion of time | Mid-point of pay-scale ⁽¹⁾ (£) | Cost (£) |
|-------------------------------|-----------------|--------------------|---|---------------|
| Transition costs | | | | |
| Communications | | | | 5,000 |
| Total Transition costs | | | | 5,000 |
| Recurrent costs | | | | |
| Administration | | | | |
| Head of Branch | 1 | 20% | 62,610 | 12,520 |
| HEO | 1 | 60% | 37,410 | 22,450 |
| EO | 1 | 60% | 30,110 | 18,070 |
| TS | 1 | 20% | 24,050 | 4,810 |
| Total staff costs | | | | 57,850 |
| Advisory Panel | | | | 25,000 |
| Total Recurrent costs | | | | 82,850 |

(1) Yn cynnwys 30% o 'argostau'.

BUDDIANNAU

Opsiwn 1 – Gwneud dim

40. Y farchnad lafur leol gyda threfniadau deddfwriaethol y DU, fel yr ICC, yn sail iddynt, fydd yn pennu'r isafswm cyflogau ar gyfer gweithwyr y diwydiant. O'i gymharu â'r sefyllfa ar hyn o bryd (lle defnyddir yr ICA), gallai fod buddiannau posibl i fusnesau fferm oherwydd beichiau gweinyddol llai (dim ond un ddeddfwriaeth gyflogi y byddai gofyn iddynt ddysgu amdani) a'r potensial i dalu cyflogau is i weithwyr amaethyddol.

41. Defnyddir yr opsiwn hwn fel sail i gymharu buddiannau'r opsiynau eraill.

Opsiwn 2 - Diogelu effaith Gorchymyn 2012 yng Nghymru a rhoi cyfle i Weinidogion Cymru greu trefniadau cyngori addas a Gorchymynion newydd mewn cysylltiad â'r sector amaethyddol yng Nghymru yn ôl y gofyn.

42. Fel ag y nodwyd uchod, ceir dadleuon cryf na fydd cadw effaith Gorchymyn 2012 i Gymru'n golygu unrhyw newidiadau ariannol mawr nawr nac yn y tymor byr i'r sector amaethyddol yng Nghymru. Un o fanteision yr opsiwn hwn yw y bydd tâl ac amodau a thelerau cyfredol gweithwyr amaethyddol yn cael eu cadw a bydd yn sail ar gyfer pennu telerau ac amodau yn y dyfodol. Bydd yn helpu'r sector i weithio'n effeithiol trwy sicrhau bod gennym weithlu crefftus sydd wedi'i

hyfforddi'n dda a fydd yn ei dro'n gallu cynhyrchu mwy a gweithio'n fwy effeithlon.

43. Bydd yn gofalu hefyd na chaiff y system gyfredol, sy'n gwobrwyo sgiliau a phrofiad a thrwy hynny'n cynnal sector cytbwys yng Nghymru sy'n gweithio'n dda, ei gwanhau. Bydd yn caniatáu'r sector i barhau heb amharu ar y mesurau statudol sy'n amddiffyn gweithwyr na chwaith ar gadwyn cyflenwi gweithwyr amaethyddol crefftus.
44. At hynny, disgwylir iddo arwain at drosglwyddo arian o fusnesau fferm i weithwyr amaethyddol, gyda'r olaf o bosibl yn elwa ar delerau ac amodau gwell (er enghraifft, o safbwynt tâl salwch a hawl i wyliau) nag y caent fel arall. Ond fel y dywedir uchod, mae'n debygol y gwnaiff llawer o weithwyr elwa ar yr hawliau sydd wedi'u crynhoi o dan gontractau cyflogaeth a ddechreuwyd cyn y newidiadau i'r drefn statudol ac ni fydd y trosglwyddiadau y cyfeirir atynt uchod yn debygol o ddigwydd ond wrth i newydd-ddyfodiaid ymuno â'r diwydiant a phan ddaw'n amser i adnewyddu neu ailnegodi'r contractau sy'n bod heddiw. Ni chaiff y trosglwyddiadau hyn unrhyw effaith net ar economi'r DU.
45. Mae'r Gorchymyn presennol yn amddiffyn gweithwyr iau trwy bennu'r cyfraddau tâl isaf ar gyfer gweithwyr iau o oed addysg orfodol. Mae hyn yn wahanol i'r ICC sy'n ymdrin â gweithwyr 16 oed a mwy yn unig. Yn yr un modd, nid yw deddfwriaeth cyflogaeth y DU yn ymdrin â chyfraddau tâl penodol sy'n gysylltiedig â sgiliau, cyfraddau penodol ar gyfer goramser, cyfradd tâl isaf i weithwyr o oed addysg orfodol, hawl i hyfforddiant â thâl, lwfansau ar alwad a chyda'r nos, hawl i dâl profedigaeth, grant geni neu fabwysiadu na lwfans c n.
46. Trwy fod y lefelau cyflogau ac amodau gwaith lleiaf wedi'u pennu, gallai hynny leihau'r costau a fyddai wedi'u hysgwyddo fel arall gan fusnesau fferm a gweithwyr amaethyddol wrth drafod cyflogau ar lefel unigolion.
47. Dywedir bod strwythur graddio presennol yr AWB yn gymhelliant i weithwyr amaethyddol fynd am hyfforddiant ac i ddatblygu er mwyn cael dringo i fyny'r raddfa. Gellid disgwyl i fusnes y fferm a'r diwydiant elwa ar yr hyfforddiant a'r datblygu ychwanegol hyn trwy allu cynhyrchu mwy. Mae'r AWB hefyd yn annog gweithwyr ifanc i ymuno â'r diwydiant trwy sicrhau dilyniant awtomatig a datblygiad proffesiynol trwy hyfforddiant.
48. Mae pobl wedi dadlau bod gweithwyr yn y diwydiant amaethyddol yn tueddu i weithio oriau hirach a gwneud gorchwylion mwy corfforol a pheryglus na gweithwyr yn sectorau eraill yr economi a'i bod felly'n amhriodol iddynt orfod derbyn yr un telerau ac amodau â gweithwyr eraill.
49. Dylid nodi serch hynny, bod sectorau eraill yr economi'n gweithredu'n effeithiol heb drefn sectorol ar gyfer pennu isafswm cyflog. Yn y sectorau hyn, mae'r berthynas rhwng y cyflenwad llafur a'r galw amdano'n golygu bod cyflogwyr yn barod i dalu premiwm i weithwyr sydd â set benodol o sgiliau neu sy'n gweithio o dan amgylchiadau peryglus. Fel arall, byddai perygl iddynt golli'u gweithwyr i gystadleuydd neu ddiwydiant arall. Ceir tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn y

diwydiant amaeth, gweler Tabl 1 uchod. Telir premiwm sy'n uwch na chyfradd yr AWB ar gyfer eu gradd yn 2010 i dros 50% o weithwyr amaethyddol.

50. **Yn yr amser oedd gennym, nid oedd yn bosibl cynnal asesiad manwl o'r buddiannau sy'n gysylltiedig â'r cynigion hyn.**

Opsiwn 3 – Sefydlu Panel Cyngori Amaethyddol anstatudol i Gymru

51. Byddai'r graddau y mae Panel Cyngori Amaethyddol anstatudol yn llwyddo i sicrhau'r buddiannau a drafodir o dan Opsiwn 2 yn dibynnu i ba raddau y bydd busnesau fferm yn cydymffurfio.

ATODIAD C – Aseiad o Effeithiau Penodol

1. Cynhaliwyd cyfres o aseidiadau o effaith y Bil fel rhan o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Ni wnaeth yr arolwg o'r aseidiadau o effaith na'r ymatebion i'r ymgynghoriad nodi effeithiau gwahaniaethol.

Yr effaith ar y sector amaethyddol yng Nghymru

2. Gan fod y Bil yn ceisio cadw effaith y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol (AWB) a'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (y Gorchymyn), amcangyfrifir na fydd newidiadau yn y lle cyntaf ac felly na cheir fawr o effaith ar y sector amaethyddol yng Nghymru.
3. Trwy gyflwyno Bil Sector Amaethyddol (Cymru), byddai'r gofynion statudol yng Nghymru'n wahanol i'r rhai yn Lloegr a gallai hynny achosi rhai problemau ar ffermydd sydd bob ochr i'r ffin a gallai effeithio'n negyddol ar fusnesau fferm yng Nghymru sy'n cystadlu â busnesau yn Lloegr. O 1 Hydref 2013, caiff y Gorchymyn ei ddiddymu yn Lloegr. Disgwylir i hyn arwain at gyflogau is i weithwyr amaethyddol newydd yn Lloegr. Yn y tymor hwy, gallai hyn wneud y sector amaethyddol yng Nghymru'n llai cystadleuol. Ar y diwydiant garddwriaethol y bydd yr effaith fwyaf gan mai staff tymor byr sy'n gweithio ynddo fwyaf. Mae llai na 1% o ddaliadau amaethyddol Cymru'n ddaliadau garddwriaethol.
4. Fodd bynnag, gan y bydd sgiliau'n cael eu cadw'n well a mwy o help i ddilyn gyrfa yng Nghymru, disgwylir y bydd hynny'n unioni unrhyw effeithiau drwg. Amcan y Bil yw dod â buddiannau i'r sector amaethyddol trwy helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau a helpu newydd-ddyfodiaid i ymuno â'r diwydiant.
5. Caiff aseidiadau pellach eu cynnal os a phan y bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio gwneud Gorchymynion o dan adrannau 2, 3 a 13 y Ddeddf.

Effaith ar y sector gwirfoddol

6. Ni chaiff y ddeddfwriaeth hon fawr o effaith, os o gwbl. ar y sector gwirfoddol.

Aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb

7. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y caiff y ddeddfwriaeth effaith wahanïaethol ar hil, rhyw nac anabledd.
8. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i annog y diwydiant amaethyddol, fel rhan o'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau fel cyflogwr, i ystyried ei effaith ar gydraddoldeb.
9. Mae'r Gorchymyn presennol yn amddiffyn gweithwyr iau trwy bennu'r cyfraddau tâl isaf ar gyfer gweithwyr iau o oed addysg orfodol. Bydd y Bil, o'i gyflwyno, yn sicrhau bod yr amddiffyniad hwnnw'n parhau.

10. Ni chaiff y Bil effaith arwyddocaol ar anabledd.
11. Rhag effeithio ar gydraddoldeb hiliol, bydd gofyn ystyried darparu'r Gorchymyn mewn amrywiaeth o ieithoedd. Er mwyn gorfodi'r Gorchymyn, lle bo angen cynnal archwiliadau mewn ieithoedd heblaw iaith yr archwilydd, bydd angen i'r archwilydd drefnu ar gyfer hynny cyn yr archwiliad.
12. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi'i hystyried fel rhan o'r asesiad o gydraddoldeb. Mae'r Bil yn gyson â Hawliau'r Confensiwn.
13. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y ceir effaith wahaniaethol ar Rywedd, Ailbennu Rhywedd, Crefydd na Chred na Diffyg Cred, Cyfeiriadaeth Rywiol, Beichiogrwydd na Mamolaeth na Phartneriaethau Sifil.

Effaith ar Ddatblygu Cynaliadwy

14. Fel rhan o ymarfer sgrinio effaith y polisi, mae sylw wedi'i roi i'r pum prif ddangosydd yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae dau ddangosydd yn berthnasol, sef Economi Gynaliadwy a Chymdeithas Gynaliadwy.
15. Mae amcanion y polisi wedi'u hystyried o safbwynt eu heffaith bosibl ar y dangosyddion ar gyfer economi a chymdeithas gynaliadwy. Bydd gwarantu amodau a thelerau gwaith gwell yn y sector yn helpu i gynnal yr economi a chymunedau gwledig.
16. Mae'r Bil yn gyson ag agenda "Hwyluso'r Drefn" Llywodraeth Cymru a disgwylir iddo ddarparu gweithwyr fydd wedi'u hyfforddi'n dda a busnesau fferm sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol yng Nghymru i gyfrannu at economi fwy ffyniannus ac arloesol.
17. Hanfod bwriad polisi'r Bil yw helpu'r sector amaethyddol yng Nghymru trwy roi amddiffyniad cynhwysfawr i weithwyr a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar ddiwydiant amaethyddol cynaliadwy.

Rhestr Gyfeirio ar gyfer Prawfesur Polisiâu Gwledig

18. Bydd cyflwyno'r Bil yn golygu cynnydd bach yng ngwaith Arolygiaeth Wledig Cymru am y deuddeg mis cyntaf.
19. Ar hyn o bryd, ceir cefnogaeth gyhoeddus i gadw'r swyddogaethau a oedd yn cael eu cynnal gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol (AWB) Bydd cynrychiolwyr buddiannau cyflogwyr a gweithwyr yn aelodau o'r Panel Cynghori Amaethyddol. Drwy hynny, bydd yn fodern ac yn fwy hyblyg.

Yr Effaith ar y Gymraeg

20. Nid oes perygl y caiff y ddeddfwriaeth hon effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Bydd cadw'r AWB a'r Gorchymyn a rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu

Panel Cyngori Amaethyddol i gynnal swyddogaethau tebyg ond diwygiedig i rai'r AWB yn cadw ac yn cynnal polisiau Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Yr Effaith ar Hawliau Plant

21. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

“Yn fy marn i, mae darpariaethau Bil Sector Amaethyddol (Cymru) wedi’u datblygu gan roi sylw priodol i Gonfensiwn Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011”